ATODLEN 6 Rheoliad 16(2)

Ffurflen ymrwymiad

Yr wyf fi, , sef person a benodwyd at ddibenion cynnal y cyfrifiad, yn ymrwymo y byddaf yn cyflawni'r dyletswyddau a ddyrennir i mi o dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920 a Rheoliadau'r Cyfrifiad (Cymru) 2010 yn llawn ac yn onest.

Byddaf yn cyflawni'r dyletswyddau hyn gan gydymffurfio â darpariaethau adran 39 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol eraill. Yr wyf yn deall y gall methu â chydymffurfio'n llawn â'm rhwymedigaethau arwain at gofnod troseddol a dirwy neu garchariad.

Ac eithrio wrth gyflawni fy nyletswyddau yn y cyfrifiad, ni fyddaf yn datgelu nac yn mynegi, yn awr nac unrhyw bryd wedyn, unrhyw fater y caf wybod amdano ynglŷn ag unrhyw berson, teulu neu aelwyd.

Dim ond i gyflawni fy nyletswyddau y byddaf yn defnyddio unrhyw ddeunyddiau mynediad a roddir imi, megis pàs diogelwch, deunyddiau adnabod personol neu gyfrineiriau. Ni fyddaf yn rhoi benthyg, yn trosglwyddo nac yn datgelu deunyddiau o'r fath fel arall i bobl eraill. Byddaf yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon arwyddocaol sydd gennyf ynghylch cyfrinachedd gwybodaeth bersonol a gesglir at ddibenion y cyfrifiad, boed o ganlyniad i'm dyletswyddau innau neu o ganlyniad i'm gweithredoedd i neu weithredoedd pobl eraill, yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Cyfrifiad yr SYG.

Llofnod

Dyddiad